# Polisi enwi adeiladau ac ardaloedd penodol yn y Brifysgol

**Corff Cymeradwyo:** Y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo:** 08 Chwefror 2019

**Perchennog y polisi:** Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor

**Cyswllt:** jsj@aber.ac.uk / 01970 622 101

**Statws y polisi:** Newydd

**Fersiwn:** 1.0

**Dyddiad yr adolygiad diwethaf:** Ebrill 2022

**Dyddiad ei adolygu nesaf:** Chwefror 2024

# Polisi enwi adeiladau ac ardaloedd penodol yn y Brifysgol

1. Cefndir

Mae enwi adeiladau ac ardaloedd penodol yn y Brifysgol yn rhoi cyfle ystyrlon i gydnabod cyfraniadau eithriadol i waith a/neu enw da Prifysgol Aberystwyth (PA). Mae'n ddull o ychwanegu at enw da'r Brifysgol, a bydd ffactorau sy'n ymwneud ag enw da yn allweddol yng nghyfansoddiad a gweithrediad y polisi. Mae'r polisi hwn yn llywodraethu pob cyfle i enwi adeilad yn y Brifysgol. Gall y Cyngor gydnabod y cyfraniadau eithriadol hyn, a hynny fel arfer trwy:

- gydnabod cyflawniadau a chyfraniad unigolion nodedig sydd â chysylltiad â'r Brifysgol, yr ardal leol neu Gymru'n ehangach; a
- chydnabod prif gymwynaswyr PA, gan gynnwys unigolion, corfforaethau a sefydliadau.

2. Cwmpas

Mae hwn yn bolisi sy'n gymwys i holl aelodau cymuned PA sy'n ceisio anrhydeddu unigolyn neu endid trwy enwi un o'r canlynol:

- Adeilad (sy'n newydd neu'n bod eisoes) neu rannau sylweddol o adeilad (aden, llawr);
- Ystafell neu ardaloedd penodol o fewn i adeilad sy'n newydd neu'n bod eisoes; a
- Llwybr tramwy neu ardal awyr agored y tu allan i adeilad.

3. Polisi cyffredinol ar gyfer enwi

   1. Gan y Cyngor yn y pen draw y mae'r hawl i gadarnhau unrhyw gais i enwi, yn amodol ar y Weithdrefn Gymeradwyo (pwynt 4 isod).

   2. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl, os oes rheswm da, i ddiddymu penderfyniad a wnaed ynglŷn ag enwi, er enghraifft, os yw'n creu bygythiad sylweddol a pharhaol i enw da PA neu os yw'r rhoddion dyngarol y cytunwyd arnynt yn gysylltiedig â'r enwi yn lleihau (gweler pwynt 3.4).

   3. Os penderfynir ar enw am gyfnod cyfyngedig, mae PA yn cadw'r hawl i ailenwi'r adeilad neu ardal benodol ar ôl i'r cyfnod y cytunwyd arno ddod i ben.

   4. Os cytunwyd i enwi adeilad neu ardal benodol yn barhaol, caiff hyn fel arfer ei anrhydeddu am byth, yn amodol ar bwynt 3.2.

   5. Ni fydd enwi adeilad, neu ystafell, neu ran o adeilad a ddefnyddir i ddiben neu bwnc academaidd penodol yn atal y Brifysgol rhag newid ei blaenoriaethau academaidd na'u blaenoriaethau ymchwil.

   6. Rhaid i argymhellion ynglŷn ag enwi adeilad, neu ran sylweddol o adeilad, ddangos naill ai:

      - Ymwybyddiaeth o gefnogaeth ymhlith staff a myfyrwyr PA i'r enw er mwyn cydnabod cyfraniad eithriadol yr unigolion i waith y Brifysgol, yr ardal leol neu Gymru'n ehangach; neu
      - Gyfraniad sylweddol yn ariannol (neu gyfatebol) tuag at gyfalaf neu gostau rhedeg yr adeilad neu ardal dan sylw gan unigolyn, corfforaeth neu sefydliad. Fel arfer, mae

'sylweddol' yn golygu o leiaf 30% o'r cyfalaf llawn neu gostau gweithredu, ond yn y pen draw gan y Cyngor y mae'r gair olaf am hyn. Os yw'r enwi'n gysylltiedig â rhodd, dilynir cyfarwyddyd polisi rhoddion PA yng nghyswllt y broses a'r drefn o dderbyn rhoddion.

7. Os penderfynir enwi i anrhydeddu aelod o gymuned PA neu ysgolhaig amlwg y tu allan i'r Brifysgol, ni wneir hynny fel arfer tan o leiaf ddwy flynedd ar ôl ymddeoliad neu farwolaeth yr unigolyn, oni bai bod amgylchiadau eithriadol (megis dyfarnu gwobr Nobel neu gydnabyddiaeth fyd-eang gyffelyb).

4. Y Drefn Gymeradwyo

1. Gall pob aelod o staff PA a'r gymuned myfyrwyr wneud argymhelliad enwi drwy anfon nodyn byr (300 gair) sy'n amlinellu'r rhesymeg dros eu hargymhelliad i'r Rheolwr Cynllunio Gofod (Dr Tim Macy, tmm@aber.ac.uk), a fydd yn ceisio cymeradwyaeth gychwynnol gan y Grŵp Cynghori ar Enwi (sy'n cynnwys y Rheolwr Cynllunio Gofod; Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu; Cyfarwyddwr DARO, Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran berthnasol a/neu Gyfarwyddwr ar lefel Weithredol, cynrychiolydd o Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, Undeb y Myfyrwyr a llywyddion neu gynrychiolwyr UMCA). Bydd y grŵp hwn yn cyfarfod yn ôl yr angen.

2. Os bydd yr enwi arfaethedig yn ymateb i rodd, dylid cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy a gwiriadau bywgraffyddol sy'n ymwneud â'r unigolyn, fel yr amlinellir yn y Polisi Derbyn Rhoddion.
Os daw cynnig i law i enwi adeilad neu ardal ar ôl unigolyn nodedig nad yw'n gymwynaswr mawr, bydd angen i'r Grŵp Cynghori ar Enwi, y Weithrediaeth a'r Cyngor yn y pen draw, fod yn sicr bod asesiad risg wedi'i gwblhau a bod ffynonellau wedi'u nodi sy'n diystyru cysylltiadau â thrydydd partïon sydd â'r potensial i ddwyn anfri ar y Brifysgol. Dylai'r asesiad hwn gael ei gyflwyno â'r rhesymeg 300 gair, a dylai Cyfarwyddwr DARO ei ddilysu gan ddilyn gweithdrefn debyg i honno a amlinellir yn y Polisi Derbyn Rhoddion.

3. Wrth ystyried enwebiadau, bydd y Grŵp Cynghori ar Enwi yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i broffil cyffredinol cyfredol yr adeiladau a'r ardaloedd yn y Brifysgol sydd wedi'u henwi, gyda'r bwriad o sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth cynrychioliadol yn nosbarthiad yr enwau. Pan fydd y Grŵp yn gwneud un argymhelliad cychwynnol, caiff ei gyflwyno i Weithrediaeth y Brifysgol i'w adolygu.

4. Pan fydd Gweithrediaeth y Brifysgol yn fodlon bod y cyfle i enwi yn cydymffurfio â'r polisi hwn, a bod yr argymhelliad yn haeddu ei gefnogi, bydd naill ai yn:

- anfon yr argymhelliad ymlaen i'r Cyngor i'w gymeradwyo'n derfynol, yn achos adeilad, rhan fawr o adeilad, neu ddatblygiad sylweddol; neu
- ymhob achos arall, yn cymeradwyo'r argymhelliad yn ffurfiol.

5. Os na fydd y Cyngor, PA na'r Grŵp Cynghori ar Enwi yn cymeradwyo'r argymhelliad, caiff ei anfon yn ôl at y Rheolwr Cynllunio Gofod a fydd yn rhoi gwybod i'r unigolyn a wnaeth yr argymhelliad.

5. Ceisiadau eraill i enwi adeiladau neu ardaloedd yn y Brifysgol

*Mae'r weithdrefn ar gyfer enwi neu ailenwi adeilad neu ardal nad yw'n ymwneud ag unigolyn a enwir wedi'i hatodi i'r polisi hwn*

6. <u>Arwyddion Enwi</u>

1. Rhaid i bob plac neu arwydd o fath arall sy'n cydnabod enwi adeilad neu ardal benodol fod yn gyffredinol unffurf ei ddyluniad a dylai gydymffurfio â pholisi/canllawiau brandio PA. Dylid ymgynghori â'r Grŵp Cynghori ar Enwi, trwy'r Rheolwr Cynllunio Gofod, ynglŷn ag arwyddion i gydnabod enwi adeilad neu ardal.

2. Fel arfer, ni chaniateir logo a/neu lythrennau teitl corfforaeth allanol ar arwyddion cydnabod PA, er y gellid hepgor yr amod hon fesul achos wrth drafod cyrff elusennol.

# Y weithdrefn ar gyfer enwi neu ailenwi adeiladau prifysgol ac ardaloedd penodol

Ceisiadau eraill i enwi adeiladau neu ardaloedd yn y Brifysgol

1. Dylid dilyn y weithdrefn hon [DOLEN I'R HEN BOLISI ENWI ADEILADAU YMA] i ystyried ceisiadau i enwi neu ailenwi adeilad neu ardal yn gyffredinol. Byddai hyn yn berthnasol mewn achosion lle gellid disgrifio swyddogaeth ardal mewn modd defnyddiol drwy newid yr enw. Mewn achosion o'r fath, bydd angen dilyn yr un weithdrefn, a bydd asesiad risg wedi'i gynnal ar unrhyw anfanteision neu faterion posibl sy'n codi o'r enw arfaethedig.

2. Mae Gweithrediaeth y Brifysgol yn derbyn argymhelliad gan y Grŵp Cynghori ar Enwi. Pan fydd Gweithrediaeth y Brifysgol yn fodlon bod y cyfle i enwi yn cydymffurfio â'r polisi hwn, a bod yr argymhelliad yn haeddu ei gefnogi, bydd yn cymeradwyo'r argymhelliad yn ffurfiol.

3. Os na fydd Gweithrediaeth y Brifysgol na'r Grŵp Cynghori ar Enwi yn cymeradwyo'r argymhelliad, caiff ei anfon yn ôl at y Rheolwr Cynllunio Gofod a fydd yn rhoi gwybod i'r unigolyn a wnaeth yr argymhelliad.

4. Arwyddion Enwi

    1. Rhaid i bob plac neu arwydd o fath arall sy'n cydnabod enwi adeilad neu ardal benodol, fod yn gyffredinol unffurf ei ddyluniad a chydymffurfio â pholisi/canllawiau brandio PA. Dylid ymgynghori â'r Grŵp Ymgynghorol Enwi, trwy'r Rheolwr Cynllunio Gofod, ynglŷn ag arwyddion i gydnabod enwi adeilad neu ardal.

    2. Fel arfer, ni chaniateir logo a/neu lythrennau teitl corfforaeth allanol ar arwyddion cydnabod PA, er y gellid hepgor yr amod hwn ar sail achosion unigol i gyrff elusennol.